**Cofnodion sydd heb eu cadarnhau o'r Cyfarfod Bwrdd a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2024**
**Fe'i cynhaliwyd yn 3.0, CQ2 ac yn electronig trwy Microsoft Teams**
**Wedi'i ffrydio'n fyw ar y Rhyngrwyd**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Nick Elliott | (NE) | Cadeirydd Dros Dro |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Sumina Azam | (SA) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| Huw George | (HG) | Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil |
| Clare Jenkins | (CJ) | Is-gadeirydd y Bwrdd |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol. |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| **Yn bresennol:** | | |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Karen Fitzgibbon | (KF) | Cyd-gadeirydd y Rhwydwaith Menywod |
| Joanne Hopkins | (JH) | Cyd-gadeirydd y Rhwydwaith Menywod |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Jim McManus | (JM) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant |
| Claire Sullivan | (CS) | Cynrychiolydd Ochr Staff |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Tamsin Ramasut | (TR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol |

HEB EU CADARNHAU

*Dechreuodd y cyfarfod am 11:15*

| ICC 2024.07.25/1 | Croeso ac Ymddiheuriadau |
|---|---|
| Croesawodd NE bawb i'r cyfarfod, gan estyn croeso cynnes i'r rhai a oedd yn arsylwi'r trafodion ar-lein.<br><br>**Nododd** y Bwrdd **yr ymddiheuriadau** a restrir uchod. | |
| **ICC 2024.07.25/2** | **Datganiadau o Fuddiannau** |
| Gofynnodd NE am Ddatganiadau o Fuddiannau heblaw'r rhai a gofnodwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant. Nid oedd unrhyw ddatganiadau eraill. | |
| **ICC 2024.07.25/3** | **Rhwydweithiau Staff** |
| **ICC 2024.07.25/3.1** | **Y Rhwydwaith Menywod** |
| Yn dilyn cyflwyniadau blaenorol gan y rhwydwaith i'r Bwrdd, estynnodd NE groeso cynnes i KF a JH, cyd-gadeiryddion y Rhwydwaith Menywod (y Rhwydwaith).<br><br>Defnyddiodd KF a JH gyflwyniad sleidiau i dynnu sylw at y canlynol:<br>• Trosolwg o'r Rhwydwaith Menywod gan gynnwys crynodeb o'r gweithgorau a sefydlwyd i rannu profiadau a hyrwyddo materion a fyddai'n effeithio ar aelodau.<br>• Edrych yn ôl ar weithgarwch yn ystod 2023/24, gan gynnwys digwyddiadau a sgyrsiau yn canolbwyntio ar feysydd allweddol megis y menopos, iechyd y mislif a deall priodas dan orfod.<br>• Uchelgais i'r rhwydwaith barhau i greu mannau diogel, i aelodau wneud cysylltiadau yn ogystal â chefnogi a grymuso eraill.<br><br>Gofynnodd y rhwydwaith i'r Bwrdd am y canlynol:<br>• Argymell menywod ysbrydoledig yn rhwydweithiau Aelodau'r Bwrdd, neu eu rhoi mewn cysylltiad â menywod ysbrydoledig, i gefnogi mentora ac i fod yn siaradwyr gwadd mewn digwyddiadau.<br>• Cytuno ar nifer fach o leoedd wedi'u neilltuo ar gyfer datblygu arweinyddiaeth ar gyfer arweinwyr benywaidd.<br>• Cynnwys y Rhwydwaith Menywod mewn trafodaethau i gytuno ar ddull o fynd i'r afael â'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau (gan ddechrau gyda meithrin dealltwriaeth o'r hyn sy'n cyfrannu at y bwlch)<br><br>Diolchodd NE i KF a JH am y cyflwyniad a gwahoddodd gwestiynau gan y Bwrdd.<br><br>Gofynnodd SG a oedd beichiogrwydd ac iselder ôl-enedigol yn feysydd ffocws i'r Rhwydwaith. Cadarnhaodd KF nad oedd hwn yn fater sydd wedi'i godi'n eang gan yr Aelodau, dywedodd, fodd bynnag, y gellid ei archwilio.<br><br>Gofynnodd DC am nifer yr aelodau a sut y gallai'r Bwrdd gefnogi'r gwaith o godi ymwybyddiaeth o waith y Rhwydwaith. Cadarnhaodd KF fod tua 180 o aelodau, gyda chraidd o rhwng 25-50 o aelodau'n mynychu'n rheolaidd. Awgrymodd y gallai'r Bwrdd gefnogi drwy rannu eu straeon ac ymuno â gweithgorau rhwydwaith wyneb yn wyneb i glywed gan yr aelodau'n uniongyrchol. Cymerodd y Rhwydwaith Menywod ran yn y | |

HEB EU CADARNHAU

HEB EU CADARNHAU

diwrnodau Croeso i aelodau staff newydd i gynyddu ymwybyddiaeth o waith y rhwydweithiau ac annog aelodau newydd.

Myfyriodd IB ynghylch sut y gallai'r Bwrdd weithredu fel cynghreiriaid i'r Rhwydwaith Menywod ac annog man diogel ar gyfer gwahanol sgyrsiau. Soniodd hefyd am y cysylltiadau â Rhwydweithiau eraill a'r potensial ar gyfer trafodaethau amlochrog ar draws y Rhwydweithiau.

Tynnodd TC sylw at waith rhagorol y Rhwydwaith a sut mae'r aelodaeth wedi tyfu o dan stiwardiaeth JH a KF. Gan nodi bod KF a JH yn bwriadu camu i lawr fel Cyd-gadeiryddion eleni, diolchodd i'r ddwy am eu cyfraniadau i ddatblygiad y Rhwydwaith.

Diolchodd NE i JH a KF am eu cyflwyniad, ac am eu cyfraniadau yn ystod eu cyfnod fel Cyd-gadeiryddion. Roedd y Bwrdd yn cefnogi'r gofynion mewn egwyddor, gan nodi y byddent yn cael eu hadolygu gan y Tîm Gweithredol i'w gweithredu.

| | |
|---|---|
| **ICC 2024.07.25/4** | **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** |
| **ICC 2024.07.25/4.1** | **Adroddiad y Prif Weithredwr** |

Wrth gyflwyno Adroddiad y Prif Weithredwr, tynnodd TC sylw at y canlynol:

- Y diweddariad ar weithgareddau cyfredol y sefydliad mewn perthynas ag Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19 y DU, gan gynnwys statws a sefyllfa pob modiwl y manylir arno yn yr adroddiad.
- Yna rhoddodd PV gyflwyniad cryno ar gyhoeddi'r adroddiad terfynol o Fodiwl 1 yr Ymchwiliad Cyhoeddus (Cydnerthedd a Pharodrwydd). Nodwyd bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio drwy'r argymhellion a'u goblygiadau.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd gweinidogol gydag Ysgrifennydd y Cabinet. Nodwyd bod ffocws y cyfarfodydd ar y cynnydd o ran cyflawni ein Rhaglen Mynd i'r Afael â Diabetes Gyda'n Gilydd, a hybu pwysau iach ac atal gordewdra.
- Cyhoeddi Adolygiad Annibynnol o Ddiwylliant y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC). Nodwyd bod nifer o argymhellion gan gynnwys newid mewn arweinyddiaeth i greu ymagwedd a diwylliant newydd, yn ogystal â gwelliannau mewn nifer o feysydd allweddol megis arferion recriwtio a chadw. Byddai CB yn gweithio gyda'r Prif Swyddogion Nyrsio a'r Cyfarwyddwyr Nyrsio ar draws GIG Cymru i gefnogi'r gwaith o adfer yr NMC fel corff rheoleiddio sy'n addas i'r diben. Nodwyd bod CB wedi cysylltu â phob un o'n hunigolion cofrestredig yn Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynnig cymorth.
- Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle (Stonewall). Eleni, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i osod yn y 31$^{ain}$ safle ymhlith y cyflogwyr LHDTC+ mwyaf cynhwysol yn y DU, ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle (WEI) blynyddol yr elusen Stonewall.

Gofynnodd TC i IB roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y toriad TG byd-eang diweddar.

Cadarnhaodd IB fod yr effaith ar Iechyd Cyhoeddus Cymru yn fach iawn. Dywedodd bod rhai o'r gwasanaethau cenedlaethol heb fynediad i rai meddalwedd (fel Datix) am gyfnod byr, ond nid oedd hynny wedi bod yn broblem sylweddol.

Diolchodd NE i TC, PV ac IB am y trosolwg a gwahoddodd gwestiynau gan y Bwrdd.

Tynnodd SG sylw at yr argymhelliad yn Adroddiad Modiwl 1 yr Ymchwiliad Cyhoeddus yn ymwneud ag enwebu un grŵp i fod yn gyfrifol am barodrwydd y DU gyfan. Mynegodd bryder

nad oedd hyn yn adlewyrchu'r trefniadau ar gyfer datganoli. Cydnabodd TC y pwynt hwn, a dywedodd y byddai hyn yn cael ei ystyried wrth i'r argymhellion gael eu datblygu.

Gofynnodd SG am oblygiadau araith y Brenin a sut roedd hyn yn cael ei adolygu o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cyfeiriodd TC at y pwyntiau allweddol yn yr araith yn ymwneud ag ysmygu a fepio, a nododd yr aliniad â gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd hefyd cyfle o ran y penderfynyddion masnachol a fyddai'n cael eu harchwilio ymhellach.

Ategodd JM hyn, gan gyfeirio at y synergedd â biliau presennol Llywodraeth Cymru a oedd yn destun ymgynghoriad eleni. Dywedodd bod hyn yn gyfle i alinio dulliau'r Pedair Gwlad ymhellach yn y meysydd hyn.

Cyfeiriodd SA at yr aliniad â meysydd datblygu ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru, a'r cyfle yr oedd hyn yn ei roi i feddwl yn ehangach a datblygu ein hymagwedd ymhellach.

Gofynnodd NE i'r Tîm Gweithredol adolygu goblygiadau araith y Brenin a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y goblygiadau strategol a'r camau gweithredu cysylltiedig i Iechyd Cyhoeddus Cymru.
**Cam Gweithredu: TC/JM/SA**

**Nododd** y Bwrdd Adroddiad y Prif Weithredwr a **chymerodd sicrwydd** o'r Adroddiad a'r trafodaethau yng nghyfarfod y Bwrdd.

| ICC 2024.07.25/4.2 | Trosolwg Diweddaraf o Iechyd y Cyhoedd |
|---|---|

Tynnodd IB sylw at y diweddariadau i Ddangosfwrdd Trosolwg Cyflym Iechyd y Cyhoedd;

- Roedd data gweithgarwch economaidd (cyfraddau cyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch) wedi'u diweddaru yn unol â data a dulliau diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac mae'r rhaniad fesul rhyw wedi'i ychwanegu.
- Nodwyd y byddai Marwolaethau y Gellir eu Hosgoi yn disodli Marwolaethau Gormodol yn gynnar ym mis Awst 2024.

Dywedwyd y byddai IB yn trefnu cyfarfodydd ag aelodau'r Bwrdd yn ystod mis Medi a mis Hydref 2024, i ofyn am farn ynghylch datblygu'r dangosfwrdd ymhellach.

Gan gyfeirio at Ddangosfwrdd Trosolwg Cyflym Iechyd y Cyhoedd, tynnodd IB sylw at y canlynol:

- Nodwyd bod y cynnydd yn nifer y bobl sy'n aros dros 36 wythnos, yn awgrymu nad oedd y pwysau ar y system yn lleihau.
- Roedd data yn ymwneud â marwolaethau gormodol yn fwy cadarnhaol.
- Nid oedd data Iechyd a Llesiant yn dangos unrhyw dueddiadau yn y data.
- Cyfradd cyflogaeth yn gostwng yng Nghymru a thwf mewn anweithgarwch economaidd.

Nododd JM y tueddiadau sy'n peri pryder yn ymwneud ag anweithgarwch economaidd, a'r goblygiadau i iechyd y cyhoedd fel mater cynyddol sy'n arwain at bwysau cynyddol ar y GIG.

Diolchodd NE i IB a JM, a gwahoddodd gwestiynau.

HEB EU CADARNHAU

HEB EU CADARNHAU

Mewn ymateb i gwestiwn gan MM, esboniodd IB fod sawl ffactor i'r anweithgarwch economaidd gan gynnwys; Covid hir, materion Iechyd meddwl, ymddeoliad cynnar a chysylltiadau â data ar niferoedd cynyddol sy'n aros mwy na 36 wythnos sy'n effeithio ar eu gallu i weithio.

Cyfeiriodd MM at yr angen am ymateb aml-asiantaeth cydgysylltiedig i anweithgarwch economaidd, gan ei fod yn effeithio ar ystod eang o faterion gan gynnwys yr economi ac addysg. Amlygodd ei bod yn ymddangos bod bwlch yn y strwythurau llywodraethu a oedd gan Gymru yn genedlaethol a'r effaith yr oedd y rhain yn ei chael ar y penderfynyddion ehangach.

Nododd TC bwysigrwydd cyflogaeth fel dangosydd ar gyfer iechyd y cyhoedd a'r cyfle i edrych ar y mater yn ehangach yn genedlaethol. Cyfeiriodd at enghreifftiau o'r gwaith yn Iwerddon ar ddenu buddsoddiad mewn rhai sectorau, gan gynyddu sgiliau'r gweithlu yn y meysydd targed hynny.

Cyfeiriodd SA at y gwaith o fewn Grwpiau Blaenoriaeth Strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu map ffordd. Dywedodd bod cyfle i gynnwys anweithgarwch economaidd fel rhan o'r gwaith hwn.

Diolchodd NE i bawb am y drafodaeth, a oedd wedi nodi pwyntiau pwysig i'w harchwilio ymhellach a'u gyrru ymlaen.

Derbyniodd y Bwrdd **sicrwydd** bod yr adolygiad yn mynd rhagddo a byddai diweddariadau'n cael eu darparu unwaith y bydd barn wedi'i chasglu er mwyn llywio datblygiad y dangosfwrdd.

| **ICC 2024.07.25/4.3** | **Adroddiad Perfformiad Integredig (Mis 3), Adroddiad Cyllid a Chofrestr Risg Strategol** |
|---|---|

Wrth gyflwyno'r Adroddiad Perfformiad Integredig, gwahoddodd NE HG i gyflwyno'r datblygiadau allweddol i'r Bwrdd:

- Nodwyd bod datblygiadau pellach gyda'r IPR wedi'u cynllunio i symud tuag at adrodd ar gynnydd i gyflawni canlyniadau a nodwyd yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP).
- Dywedwyd bod y Cyfarwyddiaethau wedi gweithio trwy ddangosyddion unigol ar lefel reoli, gyda'r bwriad o ystyried wedyn beth oedd yn briodol i'w adrodd i'r Bwrdd ar lefel strategol.
- Y bwriad oedd i'r adroddiad Cipolwg i roi mwy o drosolwg naratif o reoli perfformiad, ac amlygu meysydd o bryder i dynnu sylw'r Bwrdd atynt.
- Byddai dangosyddion system yn symud i Ddangosfwrdd Trosolwg Cyflym Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gwnaeth CJ sylwadau ar faint o ddata sydd ar gael, a chroesawodd y cynlluniau i symleiddio'r rhain i'r Bwrdd gan dynnu allan y dangosyddion canlyniadau allweddol, a'r rhai sy'n effeithio ar gyflawni'r Strategaeth.

Mynegodd MM bryderon ynghylch y tanwariant o £77,000 gyda Chyllideb y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant, yn enwedig yr effaith bosibl ar y rhaglen diabetes a oedd yn faes blaenoriaeth uchel.

Rhoddodd JM drosolwg o sut yr oedd hyn yn cael ei reoli ar lefel cyfarwyddiaeth; cyfarfodydd wythnosol gyda'r isadran Gyllid i ailbroffilio bob pythefnos i sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu dwyn ymlaen lle bo'n briodol i wneud cynnydd ac i gydbwyso oedi mewn camau gweithredu eraill.

Awgrymodd MM y dylid cynnwys y naratif yn yr adroddiad ar gyfer meysydd blaenoriaeth pwysig megis diabetes i egluro sut yr oedd tanwariant yn cael ei reoli.

Amlygodd NE fod gwariant rhai Cyfarwyddiaethau wedi'i bwysoli i chwarter 4, a gofynnodd am sicrwydd y gellid cyflawni'r cynllun erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Ymatebodd MK fod ei gyfarwyddiaeth yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr cyllid i reoli'r rhagolygon gwariant a chymorth er mwyn gallu addasu yn ystod y flwyddyn.

Diolchodd NE i bawb am eu cyfraniadau, a diolchodd i HG a'r tîm am y ffordd y cyflwynwyd yr wybodaeth a oedd wedi galluogi'r drafodaeth fanwl gyda ffocws.

Bu'r Bwrdd **yn ystyried** sefyllfa ariannol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 30 Mehefin 2024.

**Ystyriodd** a derbyniodd y Bwrdd **sicrwydd** ynghylch perfformiad a threfniadau llywodraethu'r sefydliad a'r cynnydd yn erbyn cyflawni ei strategaeth gan gynnwys darparu/adfer gwasanaethau a rhaglenni allweddol.

| | |
|---|---|
| | **Egwyl** |
| **ICC 2024.07.25/4.4** | **Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad gan Gadeiryddion Pwyllgorau** |

<u>Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Clinigol (ACGC)</u>
Cyfeiriodd MM at yr eitemau a ystyriwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Gorffennaf; yn arbennig yr argymhelliad i'r Bwrdd o'r Cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Ailadroddodd sylwadau cadarnhaol y Pwyllgor ACGC ar y broses eleni, y sylwadau cadarnhaol gan Archwilio Cymru a'r farn ddiamod cyffredinol a gyhoeddwyd ar gyfer y cyfrifon.

<u>Y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol (PODC)</u>
Nododd NL fod y cyfarfod ym mis Gorffennaf yn canolbwyntio ar effaith a chanlyniadau'r arolwg staff.

<u>Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella (QSIC)</u>
Darparodd DC ddiweddariad llafar o gyfarfod QSIC ar 24 Gorffennaf; ystyriwyd yr eitemau canlynol:

- Archwiliad Dwfn i Rwydwaith Ysgolion Iach Cymru
- Adroddiad Perfformiad Llywodraethu Ansawdd - roedd yr adroddiad hwn yn gyfuniad o nifer o adroddiadau. Diolchodd DC i CB a'r tîm am eu gwaith i ddatblygu'r math hwn o adrodd.

HEB EU CADARNHAU

- Sawl adroddiad blynyddol gan gynnwys Atal a Rheoli Heintiau, Diogelu ac Ymgyrch Brechu'r Ffliw i Staff.
- Diweddariad Iechyd a Diogelwch; trafodaeth ar risg a amlinellwyd yn y diweddariad yn ymwneud â selio cabinetau - gofynnwyd am ddiweddariad pellach i archwilio hyn ymhellach.
- Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Parodrwydd am Argyfwng 2023/24 a fyddai'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Roedd dolen i'r adroddiad wedi'i chynnwys yn adroddiad eglurhaol y Bwrdd.
- Adroddiad Sicrwydd Ansawdd Llywodraethu cyntaf Gweithrediaeth y GIG (NHSE); roedd un mater wedi'i godi yn ymwneud â defnydd NHSE o Datix a'r goblygiadau i Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran adnoddau i gefnogi.

**Nododd** y Bwrdd yr adroddiad a **chymerodd sicrwydd** o'r cynnwys a'r diweddariadau a ddarparwyd yn y cyfarfod.

| | |
|---|---|
| **ICC 2024.07.25/5** | **Eitemau i'w Cymeradwyo** |
| **ICC 2024.07.25/5.1** | **Cofnodion Bwrdd a Chofnod o'r Camau Gweithredu o gyfarfodydd 30 Mai ac 11 Gorffennaf 2024** |

**Cymeradwyodd** y Bwrdd Gofnodion 30 Mai 2024 ac 11 Gorffennaf 2024 fel cofnodion cywir o'r cyfarfodydd. Cymeradwyodd hefyd gau'r camau gweithredu a gwblhawyd ar y Cofnod o'r Camau Gweithredu.

| | |
|---|---|
| **ICC 2024.07.25/5.2** | **Cylch Gorchwyl a Chynllun Gwaith y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth 2024/25** |

Cyflwynodd PV yr adroddiad yn cyflwyno cylch gorchwyl diwygiedig drafft ar gyfer y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth. Roedd adolygiad o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor wedi'i gynnal a chyflwynwyd newidiadau a awgrymwyd i'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth ym mis Gorffennaf, i'w hargymell i'r Bwrdd eu cymeradwyo.

Crynhodd y newidiadau i'r cylch gorchwyl:

- Eglurder ar gymeradwyaeth unrhyw gytundebau/ setliadau hawliadau diswyddo a'r trothwy ar gyfer cymeradwyaeth y Pwyllgor.
- Eglurder ynghylch rôl y Pwyllgor o ran rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ar gynllunio a chyfansoddiad y Tîm Gweithredol, gan gynnwys sicrwydd y cydymffurfir â'r telerau tâl y cytunwyd arnynt.

Ychwanegodd PV fod Cynllun Gwaith wedi'i ddatblygu ar gyfer y Pwyllgor, ac awgrymwyd ychwanegu nifer o adroddiadau safonol er mwyn sicrhau trosolwg yn ystod y flwyddyn o dâl Aelodau'r Bwrdd, a sicrwydd ynghylch y trefniadau rheoli perfformiad sydd ar waith ar gyfer y Tîm Gweithredol.

Bu'r Bwrdd **yn ystyried** y newidiadau arfaethedig i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor a chafodd y newidiadau eu cymeradwyo.

**Rhoddodd** y Bwrdd ystyriaeth i gynllun gwaith y Pwyllgor a chymerodd **sicrwydd** ynghylch y trefniadau sydd ar waith ar gyfer 2024/25 i'r Pwyllgor gyflawni ei gylch gorchwyl.

| | |
|---|---|
| **ICC 2024.07.25/5.3** | **Rheoli Risg** |

HEB EU CADARNHAU

Wrth gyflwyno'r Gofrestr Risg Strategol, gwahoddodd NE CB i gyflwyno'r Gofrestr Risg Strategol ddiwygiedig i'r Bwrdd.

Dywedodd CB wrth y Bwrdd fod y Gofrestr Risg Strategol wedi'i diwygio, a'i bod bellach yn cynnwys chwe Risg. Roedd risg 6 yn ymwneud â seiberddiogelwch ac felly cafodd ei adolygu mewn sesiwn breifat. Roedd cysylltiadau â themâu Sefydliadol bellach wedi'u cynnwys yn y Cofrestrau ac roedd gwaith yn parhau ar weithredu'r cynllun datblygu. Nododd y bwriad i symleiddio'r adrodd yn yr iteriad nesaf.

Gwahoddwyd perchnogion y Risgiau Unigol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am eu risgiau priodol:

**Risg 1: Bwlch o ran disgwyliad oes iach poblogaeth Cymru yn ehangu.**
Nododd CB fod gwall yn yr Adroddiad ac y dylai'r sgôr Risg Cyfredol fod yn 9. Nododd JM y gwaith i nodi'r meysydd risg a oedd o fewn rheolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, a'r rhai a oedd ar lefel system.

**Risg 2: Canlyniadau iechyd gwaeth i boblogaeth Cymru.**
Nododd JM fod y Tîm Gweithredol Busnes (BET) wedi cynnal sesiwn a chytuno ar arweinwyr ar ymgysylltu â gwahanol sectorau a fyddai'n cefnogi gwaith i roi'r camau gweithredu o fewn y risg hon ar waith.

**Risg 3: Y sefydliad yn methu ag ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd mewn perthynas â'u hiechyd a'u llesiant**.
Nododd SA fod cysylltiadau â'r gwaith o amgylch Ein Hymagwedd at Ymgysylltu a arweiniwyd gan CB ac adroddiad yn amlinellu opsiynau i'w gyflwyno yn BET ym mis Medi.

**Risg 4: Iechyd sefydliadol yn gwaethygu**
Nododd NL y byddai canlyniadau'r arolwg staff yn cael eu gwerthuso a'u defnyddio i lywio'r camau lliniaru risg hyn. Nododd yr angen i fod yn fwy penodol o ran amserlenni ar gyfer lleihau'r sgôr risg.

**Risg 5: Methiant i ddarparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd rhagorol ar sgrinio, heintiau, diogelu iechyd a Pharodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys (EPRR) a chydymffurfio â'r Ddyletswydd Ansawdd.**
Roedd hon yn risg wedi'i chyfuno, gan ymuno â risgiau 5 a 6 blaenorol. Amlinellodd MK y gwaith sydd ar y gweill ar yr agenda gweithlu arbenigol. Dywedodd fod trafodaethau ar y gweill i reoli gweithlu arbenigol i leihau gwendid Sefydliadol.

Gofynnodd SG am ragor o eglurder ar ddatblygiadau gweithlu amlddisgyblaethol. Dywedodd MK eu bod yn adolygu'r gofynion ar gyfer rolau perthnasol, a lle gallai rhannau o rôl gael eu cwblhau gan eraill. Pwysleisiodd bwysigrwydd sicrhau ansawdd y gweithlu ac ystyried strwythurau gyrfa a datblygiad personol o fewn y cyd-destun hwn.

Diolchodd NE i bawb am y diweddariadau, a nododd y cynnydd a maint y gwaith sy'n cael ei wneud. Nododd y datblygiadau arfaethedig ar gyfer risgiau a'r bwriad i ymgysylltu ag aelodau'r Bwrdd yn fuan cyn cyflwyno i'w gymeradwyo ym mis Tachwedd.

**Ystyriodd** a chymeradwyodd y Bwrdd y ceisiadau newid i'r Risgiau Strategol.

HEB EU CADARNHAU

| | |
|---|---|
| **ICC 2024.07.25/5.4** | **Addewid Arweinyddiaeth Dosturiol** |
| Cyflwynodd NL yr eitem a rhoddodd gefndir i'r Addewid. Eglurodd bod yr Addewid wedi'i ddatblygu ar gyfer GIG Cymru gan AaGIC. Mae arweinyddiaeth dosturiol yn golygu canolbwyntio ar berthnasoedd trwy wrando'n ofalus ar bobl eraill, eu deall, cydymdeimlo â nhw a'u cefnogi, gan alluogi'r rhai yr ydym yn eu harwain i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u bod yn cael gofal, fel y gallant gyrraedd eu potensial a gwneud eu gwaith gorau. Roedd tystiolaeth glir bod arweinyddiaeth dosturiol yn arwain at staff brwdfrydig ac sy'n ymgysylltu'n well gyda lefelau uchel o lesiant, sydd yn ei dro yn arwain at ofal o ansawdd uchel.<br><br>Dywedodd TC fod yr egwyddorion o fewn yr addewid yn adlewyrchu'r gwaith sydd eisoes ar waith o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran Diwylliant.<br><br>Adleisiodd NE hyn. Nododd fod Iechyd Cyhoeddus Cymru eisoes yn cyd-fynd â'r egwyddorion o fewn yr addewid. Roedd yn bwysig dangos undod â chydweithwyr ar draws y system drwy lofnodi'r addewid hwn a dangos ein hymrwymiad.<br><br>Mae'r Bwrdd wedi **mabwysiadu'r** addewid ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ymrwymo i greu gweithle tosturiol ac i fodelu arweinyddiaeth dosturiol ym mhob rhyngweithiad. | |
| **ICC 2024.07.25/6** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **ICC 2024.07.25/6.1** | **Adroddiad Preifat y Cadeirydd (25 Gorffennaf 2024)** |
| **Nododd** y Bwrdd Adroddiad Preifat y Cadeirydd. | |
| **ICC 2024.07.25/6.2** | **Blaengynllun y Bwrdd** |
| **Nododd** y Bwrdd Flaengynllun y Bwrdd. | |
| **ICC 2024.07.25/6.3** | **Papurau Bwrdd Preifat** |
| Dim. | |
| **ICC 2024.07.25/8** | **Dyddiad y Cyfarfod Bwrdd Ffurfiol Nesaf** |
| Diolchodd NE i bawb am eu cyfraniadau i'r cyfarfod.<br><br>Dywedodd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 26 Medi 2024, a byddai'n cynnwys y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. | |
| Daeth y cyfarfod i ben am 14:02 | |

HEB EU CADARNHAU